CYFRES YR 20FED GANRIF.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

CYF. 7. RHIF 8.] AWST, 1907. [PRIS 2c.

CYNWYSIAD.

NODION Y MIS.

CADDEN WILLIAM DAVIES, RHYDOWENFACH
(*Gyda Darlun*).

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD.
Simon Jones, B.A., Abertawe.

CENHADAETH CYMRU I'R CENHEDLOEDD.
Sarnicol.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

YR ADOLYGYDD.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS, GWASG GOMER, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

D.D., Felinfach; Parch. E.D.P.E., Bury; J.D., Llanwnen; D.M.D., Aberdar; D. T., Preugwyn; D.D., Gwardafolog; D.J., Rhydfene; H.H., Merthyr; Mrs. J., Pentwyn; Parch. D.R., Penybont; D.T., Penarfawr; S.E.B., Manchester; J.J., Aberaman; E.D., Aberdar; E.J.J., Barnsbury; C.E., Merthyr; J.R., Pontbrenllwyd.

YN EISIEU.

RHIFYNAU O'R "YMOFYNYDD"

FEL Y CANLYN:—

Ionawr, Chwefror, Ebrill a Gorphenaf, 1868; Chwefror a Mehefin, 1878; Awst, 1887. Goheber â J. D. LEWIS, Swyddfa'r *Ymofynydd*, Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1907. [CYF. VII. RHIF 7.

NODION Y MIS.

YR hyn ydyw'r Sasiwn i'r Methodistiaid a'r Undeb i'r Anibynwyr ddylai Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas fod i'r Undodiaid. Pryd hyn y terfynir ac yr adolygir gwaith y flwyddyn, ac y tynir allan waith ei chynlluniau newyddion gyferbyn a'r dyfodol. Bu llawer o'r pethau hyn o dan sylw Pwyllgor y Gymdeithas gynhaliwyd yn Aberdar, adroddiad o'r hwn welir mewn man arall. A mantais fawr i'n Cyfundeb bychan fyddai, pe caem ragor o'n pobl ieuainc a hen i deimlo dyddordeb mwy yn ei weithrediadau. Buasai'r cerbyd a'r llwyth yn symud yn rhwyddach pe byddai ysgwyddau rhagor oddi tano.

Efalle mai'r cwestiwn pwysicaf a mwyaf pell-gyrhaeddol fu dan sylw ydoedd yr awgrym wnaeth Mr. James mewn llythyr o uno y ddwy Gymdeithas, sef yr un Saesneg a'r un Gymraeg. Fel mewn materion eraill, yr oedd gwahanol feddyliau a gwahanol farnau. Y mae yr *ideal* ymgeisia Mr. James gyrhaedd ato yn un arderchog, os gellir ei weithio allan yn llwyddianus. Ni fu o fewn ein cof y fath gyfnod yn hanes bywyd crefyddol Cymru a'r presenol. Y mae y lefain wedi ei osod yn y blawd,—dylanwad pregethiad y Dduwinyddiaeth Newydd wedi cyrhaedd cilfachau mwyaf neillduedig Cymru; ac y mae pynciau mawrion—y rhai oeddent gynt yn hanfodol i iachawdwriaeth y Cristion—yn cael eu gadael ar ol fel dillad baban, y rhai y mae wedi eu gordyfu. Dylem ninau fod yn barod ac yn effro, a'n hwyliau allan i dderbyn o'r awelon iachus chwytha.

Nis gallwn wneud dim yn well na gosod i fewn yn y fan hon y llythyr ddanfonodd Mr. James ac a ddarllenwyd yn Mhwyllgor y Gymdeithas, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Anwyl Gyfeillion,

Bum yn gobeithio unwaith y gallaswn ysgrifenu yr adroddiad arferol ar gyfer y pwyllgor; ond mae fy afiechyd wedi parhau cyhyd, a'r anallu i ddarllen, i ysgrifenu, ac hyd yn oed i wrando a chymeryd rhan mewn ymddyddan, yn neillduol ar rai pynciau, y cyfryw fel nas gallaf ymgeisio at ddim yn y llythyr hwn ond gofyn am ryddhad o bob cysylltiad swyddogol â'r Gymdeithas o hyn allan. Yn wyneb yr anhawsder hwn, da genyf ddeall fod ein parchus Gadeirydd, Cadben Davies, yn bwriadu yn ei anerchiad fyned dros helyntion y flwyddyn, ac felly cyflawnir y diffyg yn foddhaol gan un sydd wedi cael profiad hirfaith fel Undodwr enwog am ei sêl a'i frwdfrydedd, ac fel gwr medrus yn nhrafodaeth materion ymarferol bywyd.

Nis gallaf ddweyd y gair diweddaf heb gydnabod yn wresog yr help a'r cydymdeimlad a dderbyniais oddiwrth y brodyr yn ystod y tair blynedd-ar-ddeg y bum yn ysgrifenydd y Gymdeithas. Nid wyf wedi gwneud yr haner a obeithiaswn am dano pan yn cychwyn. Tebyg mai arnaf fi oedd y bai, ac ynof fi yr oedd y diffyg. Wel, mae'r cyfleusdra wedi myn'd, ac ni ddychwel i mi byth mwy.

Diolchaf hefyd yn neillduol am yr hyfrydwch fwynheais yn nglyn â'r Ymofynydd—cyfuniad hapus y frawdoliaeth olygyddol na fu cysgod o gamddealltwriaeth yn aflonyddu ar ei chydgord—yr help a'r cydymdeimlad parod dderbyniasom, yn arbenig oddiwrth ohebwyr mor gyson, calonog a galluog a'r Parchn. R. J. Jones, Aberdar, a D. Evans, Cribyn. Bydd hefyd yn hyfrydwch i'm edrych yn ol ar yr anrhydedd gefais o fod yn gydweithiwr âg un o ysgrifenwyr goreu Cymru—digymhar, i'm tyb i, mewn llenyddiaeth Gymreig yn y cyfuniad o wrtaith a chrebwyll barddonol. Un o'r doniau prinaf, bid sicr, ganodd alarnad uwchben bedd newydd 'Dafy Boe' yn y rhifyn diweddaf. Erys yn gredyd i'r Ymofynydd ei fod wedi sicrhau gwasanaeth y fath gynorthwywr am gymaint o flynyddau.

Gair am y dyfodol cyn terfynu. Onid yw yn bryd i ail-agor y cwestiwn o gael un Gymdeithas dros Ddeheudir Cymru? Yr anhawsder, meddir, yw'r ddwy iaith. Nid oedd ein tadau yn gweled yr anhawsder hwn. Yr oedd aelodau dwy eglwys Saesneg beth bynag, os nad rhagor, yn perthyn i'r Gymdeithas pan y ffurfiwyd hi gyntaf yn 1802; ac mae pedair neu bump o eglwysi Cymraeg yn perthyn ar hyn o bryd i'r Gymdeithas Saesneg. Ffrynt gref ac unedig sydd eisiau y dyddiau hyn. Ymddengys i mi fod yna ddrws yn nghil agored yn awr, pryd nad oedd o'r blaen gymaint a thwll i wimbled yn y golwg. Mae pentwr berwedig hen ragfarnau duwinyddol Cymru, nad oedd eu poethach dan haul, yn dechreu oeri; a dyma ein cyfleusdra ni i gael y penau, y calonau a'r dwylaw goreu feddwn ni oddiamgylch yr un bwrdd. Gydag un Gymdeithas gref tu cefn, byddai siawns am lwyddiant apêl i'r *B. & F.* am *minister at large* i Morganwg a Mynwy. Gall Undodiaid Cymru ddarparu *van* i osod dan ei gyfarwyddwyd, ac felly ddechreu ar waith fyddai yn sicr o brofi yn effeithiol gydag ychydig amynedd. Fel yna yr wyf

wedi bod yn breuddwydio y misoedd diweddaf yma wrth edrych ar y cymylau yn symud ; ond gallwch benderfynu y gellir gwneud rhai o'r breuddwydion yn ffeithiau. Hynyna at eich ystyriaeth ; a gorphwysed pob bendith ar eich ymdrechion. Gyda'r cofion caredicaf,

W. JAMES."

Nis gallwn lai na chrybwyll am y golled anadferadwy gafodd Yr Ymofynydd yn ymddiswyddiad Mr. James. Nid oes neb yn gwybod, ond y rhai gafodd y fraint o gydweithio âg ef, gymaint yr hunanaberth a'r llafurus gariad ddangosodd yn ystod ei olygyddiaeth. Er i ni dreulio ein breintwasiaeth gydag ef, eto teimlwn bryder ac ofn wrth ymgymeryd â'r gwaith osodwyd arnom. Da genym hysbysu fod y Gohebwyr ffyddlon brofwyd genym yn y gorphenol yn addaw yr un help i ni eto yn y dyfodol ; ac nid ydyw yr amser yn mhell, gobeithio, pryd y cawn ni weled y "Frân" wedi esgyn i frig y goeden ac yn crawcian allan ei nodau mor effeithiol ag erioed. Y mae ei hangen arnom, ac nis gallwn ei hebgor.

Y mae Sarnicol, Golygydd y Farddoniaeth, ar hyn o bryd ar ymdaith drwy Llydaw, a bwriada roddi hanes y wlad ddyddorol hono, yn nghyd a'i phobl, mewn cyfres o erthyglau yn Yr Ymofynydd. Gall y rhai ddarllenodd "Gweinidog y Mynydd," yn nghyd a'r ysgrifau galluog "O For i Deifi," edrych yn mlaen am wledd flasus yn ystod y misoedd nesaf. Bwriada'r Golygydd hefyd dalu ymweliad â'r America yn mhen rhyw fis, ac hydera allu gosod hanes y daith a'i brofiadau ger bron y darllenwyr. Gallwn sicrhau ein darllenwyr y bydd ein goreu eto at eu gwasanaeth, ac apeliwn yn daer at hynawsedd a chydymdeimlad dosparthwyr a darllenwyr, ac am eu cynorthwy er eangu cylchrediad yr unig gylchgrawn feddwn yn Nghymru.

Gyda rhifyn Medi bydd Yr Ymofynydd yn dathlu ei driugain mlwydd oed, ac amcanwn ei wneud yn rhifyn arbenig. Cynhwysa ddarluniau yr holl olygwyr o'r dechreu, a cheir o leiaf ddwy erthygl adolygol gan ddau hen olygydd—y Parchn. R. J. Jones, M.A., a J. Hathren Davies, heblaw cyfarchiadau oddiwrth ohebwyr a darllenwyr.

Yn muddugoliaeth etholiadol Mr. Victor Grayson, y Sosialydd, ar y Rhyddfrydwr a'r Ceidwadwr y mis diweddaf yn Nyffryn Colne, cafodd y byd gwleidyddol ei symud i'r gwaelodion. Nid yw Mr. Grayson ond dyn ieuanc pump-ar-hugain oed, a mab i weithiwr yn

Lerpwl ; ond y mae iddo hanes rhamantus a dyddorol. Diangodd o'i gartref i'r môr pan yn bedair-ar-ddeg oed. Teithiodd fel crwydryn rhyw dri chant o filltiroedd drwy Gymru ; cysgai mewn ysguboriau, towledydd, tlottai, a llettai crwydriaid gyda nifer o *dramps* eraill fel yntau. Aeth i Owens College, Manchester, a bu am ddwy flynedd yn fyfyriwr yn yr Unitarian Home Missionary College, gan feddwl ymgyflwyno i waith y weinidogaeth Undodaidd. Ond yr oedd ei gydymdeimlad yn rhy gryf mewn cyfeiriad arall, ac ymddiswyddodd mewn canlyniad. Y mae ei wleidyddiaeth yn grefydd iddo, ac am ddwy flynedd y mae wedi llafurio gyda brwdfrydedd cenhadwr er achub eneidiau. Da genym fod y fath olynydd wedi ei ethol yn Aelod Seneddol i ddilyn yr Undodwr enwog a pharchus, Syr James Kitson, yr hwn yn ddiweddar a gafodd ei ddyrchafu i Dy yr Arglwyddi.

CADBEN WILLIAM DAVIES, RHYDOWENFACH

(Llywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, 1906—1907—1908.)

Pe buaswn yn gyfarwydd âg ysgrifenu, buaswn yn ymgymeryd â'r gwaith o osod wrth eu gilydd ychydig sylwadau am wrthrych y nodiadau hyn gyda phleser mawr ; ond, fel mae'n digwydd, rhyw brentis o ysgrifenydd ydwyf, ac mae'n amheus iawn a gaf y fraint o weled terfyn y brentisiaeth byth. Llawer o beth i bregethwr gwael ydyw cael testyn da, fel, os digwydd na fydd dim yn y bregeth, y bydd y testyn yn gyfoethog o awgrymiadau. Yn sicr, mae genyf destyn da—testyn y gallwn gael rhagymadrodd, oddeutu chwech o benau, a diweddglo o hono pe bawn yn dewis bod yn ffasiynol yn null fy mhregeth.

Carwn yn fawr, allan o barch ac o'r teimlad o ddyled am lawer o garedigrwydd oddiar law Cad. Davies, allu gwneud cyfiawnder âg ef ac â darllenwyr Yr Ymofynydd. Yr wyf mewn tipyn o anhawsder hefyd ; mae Cad. Davies yn fyw, ac, fel mae'n digwydd, mae'n byw yn lled agos i mi, ac felly wna hi ddim o'r tro i son ryw lawer am ei wendidau, canys yn sicr nid yw ef, mwy na finau, yn berffaith. Ar y llaw arall, ar ol claddu dyn y canmolir ef fynychaf. Dyna'r ffasiwn er's canrifoedd—efallai erioed,—ond mi feiddiaf fod yn ddigon o heretic i son ychydig am rinweddau Cad. Davies er ei fod yn fyw. Ganwyd ef yn Wigwen, ger Llanerchaeron, swydd Ceredigion, yn 1833. Enwau ei rieni oeddynt David a Mary Anne Davies. Yr oedd y blaenaf yn Undodwr selog ; a phan oedd y Cadben ond

plentyn ieuanc iawn, gwelid ef Sul ar ol Sul yn myn'd—efallai yn gorfod myn'd—yn llaw ei dad i addoli yn hen gapel y Ciliau. Diolch am rieni i greu sêl a ffyddlondeb at gwrdd ac Ysgol Sul yn nghalonau eu plant, a diolch am blant i gadw'n fyw y sêl hwnw oedd yn hynodi y tadau.



CADBEN WILLIAM DAVIES.

Bu y Cadben yn addoli yn y Ciliau yn ystod gweinidogaeth Daniel Evans, Peter Joseph a William Rees. Nid oedd yn ddigon iddo gael ei eni yn ngolwg a swn y môr, ond rhaid oedd myn'd arno; ac yn 1851 cymerodd ei fordaith gyntaf fel morwr. Am ddeng mlynedd-ar-hugain bu y tònau'n fynyddoedd a'r môr yn gartref iddo; ac yn ystod yr amser hwn gweithiodd ei ffordd yn mlaen i fod yn Gadben—ac yn wir mae'r enw yn darawiadol mewn rhagor nag un

ystyr: mae y gair "Cadben" yn arwyddocaol o'i holl fywyd. Ei elfen fawr yw cynllunio a dyfeisio y ffordd oreu i wneud hyn ag arall, ac yna rhoi gorchymyn i rywun neu rywrai i gario y gwaith allan ar y llinellau hyny. Arall yw gogoniant y gweithiwr, ac arall yw gogoniant y cynlluniwr. Mae eisiau y ddau; ac fel cynlluniwr ac hyfforddwr mae Cadben Davies wedi bod o wasanaeth mawr mewn llawer cylch.

Yn 1867 priododd â Hannah Thomas, Siop, Rhydowen—siop a fu yn enwog am flynyddoedd am ei mhasnach ac fel cartref Undodiaid brwdfrydig ac haelionus. Collodd ei gydmar ffyddlon a charedig Hydref 6, 1900, a chladdwyd ei gweddillion yn mynwent Capel-y-fadfa.

Wedi gadael y môr a'r llong bu yn byw yn Llanarth, ac oddiyno yn 1882 aeth i fyw i Brown Hill, rhwng Synod Inn a Cheinewydd. Gallaf ddweyd yn ddibetrus iddo enill parch mawr yn y ddwy ardal uchod, ac mae ei enw yno heddyw yn un teuluaidd. Pan ymwêl â'r ardaloedd, fel y gwna yn aml—gymaint yw ei awydd am fyn'd i sŵn y môr—derbynir ef gyda gwên a llawenydd gan yr ardalwyr. Yn ystod y blynyddoedd yna, er fod ganddo yn agos i chwe' milltir o ffordd, mynychai yr addoliad yn Nghapelyfadfa yn rheolaidd; a dywedir iddo fwy nag unwaith, pan oedd y gweinidog wedi methu troi i fyny, gymeryd y gwasanaeth yn ei le a myn'd trwy y gwaith yn hwylus. Yn y flwyddyn 1877, trwy ei gynghor a'i arweiniad ef, prynodd cynulleidfa y lle uchod erw a haner o dir mynwent, yr hwn a gauwyd i fewn ac a addurnwyd yn y fath fodd fel y dywed llawer mai y fynwent yma ydyw un o rai harddaf y sir.

Pan aethpwyd yn nghyd âg adeiladu capel newydd yn y fynwent yn 1905, cafwyd cynlluniwr a gweithiwr egniol yn Cadben Davies. Am yn agos i ddwy flynedd—yn ystod y gwaith o adeiladu—ymwelodd â'r lle oddeutu pum' gwaith bob wythnos, ac yn aml gwelwyd ef a'i gôt ar lawr yn gweithio'n ddiwyd. Gallaf ddweyd yn onest—"Mawr fu ei ffyddlondeb." Mae'n amheus iawn genyf a fuasai'r adeilad wedi ei orphen, ac fel y mae heddyw'n ddiddyled hefyd, oni bae am ei ffyddlondeb a'i daerni.

Yn 1889 ymfudodd i Rhydowenfach, ei gartref presenol, yr hwn a saif yn agos i hen gapel Llwynrhydowen, ac oddeutu pedair milltir o Llandyssul, ac oddiar hyny mae wedi bod yn aelod gweithgar yn y Llwyn. Fel aelod o'r Llwyn a'r Bwlch mae wedi bod o dan weinidogaeth William Thomas, M.A. (*Gwilym Marles*), W. James, B.A., J.P., W. J. Davies ac E. O. Jenkins.

Tua dwy flynedd yn ol pwrcasodd rydd-feddiant hen gapel y Llwyn i'r gynulleidfa; ac ar hyn o bryd, gan fod eglwys y Llwyn wedi cymeryd yr arweinyddiaeth—gobeithio y ca ei hefelychu gan ein holl eglwysi yn y gwaith hwn—mewn adeiladu tŷ i'r gweinidog, mae wrthi eto yn frwdfrydig.

Mor bell ag y mae caredigrwydd i weinidogion, myfyrwyr ac eraill yn myn'd, gellir ysgrifenu "Haelioni" uwch ben ei ddrws—mae yn nodedig am ei letygarwch, ac nid oes genym ond ychydig o weinidogion ag sydd heb fod o dan ei gronglwyd.

Er cymaint mae wedi ac yn wneud dros yr achos yn y Llwyn a'r Bwlch—canys y mae pobl y Bwlch yn ei hawlio llawn gymaint a phobl y Llwyn—eto nid yw cylch ei wasanaeth yn gorphen gyda'r ddwy eglwys yna. Am flynyddoedd lawer mae wedi bod yn gadeirydd pwyllgor Cymanfa Ganu Sir Aberteifi, ac un flwyddyn bu yn Llywydd y Gymanfa. Yn 1905 penodwyd ef i fod yn Is-lywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. Yn 1906 penodwyd ef i fod yn Llywydd; ac fel arwydd o'u parch tuag ato, a'u diolchgarwch iddo am ei ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, etholwyd ef i fod yn Llywydd am flwyddyn arall yn y Cyrddau Blynyddol gynhaliwyd yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, Gorphenaf 3ydd a'r 4ydd. 'Rwy'n meddwl mai efe yw yr unig un ag sydd wedi cael ei anrhydeddu fel yma gan y Gymdeithas.

Fel aelod crefyddol mae yn nodedig am ei ddefosiwn, am ei ffyddlondeb yn y cwrdd a'r ysgol; ac er fod pwysau blynyddoedd ar ei ysgwydd, 'does dim ond afiechyd all ei rwystro i fod yn bresenol. Cymer ddyddordeb mawr yn holl weithrediadau y ddwy eglwys uchod, yn ogystal ag eiddo yr holl enwad. I ddangos teimlad yr eglwysi tuag ato, efallai y bydd yn ddigon i mi ddweyd iddo gael yr anrhydedd o osod careg goffadwriaethol y Bwlch yn ei lle, ac un o'r cerig yn Nghiliau a Chapelycwm hefyd.

Mae wedi chwareu rhan bwysig hefyd yn hanes gwleidyddiaeth y sir. Etholwyd ef yn yr Etholiad Sirol cyntaf i gynrychioli Llanllwch-haiarn, a bu yn gynrychiolydd am chwech mlynedd. Am yn agos i bum' mlynedd hefyd cynrychiolodd ranbarth deheuol Llandyssul. Yn ddiameu, llanwai ei le yn rhagorol. Prawf o hyn ydyw y ffaith iddo gael ei ethol ar bob pwyllgor perthynol i'r Cynghor—anrhydedd ag sydd yn disgyn i nifer fechan yn unig. Rhyddfrydwr ydyw mewn gwleidyddiaeth, a Rhyddfrydwr gonest a selog.

Pe gofynid i mi symio fy marn am dano mewn byr eiriau, buaswn yn ei rhoi dan dri o benau—(1) Haelioni a charedigrwydd; (2) Gonestrwydd; (3) Ffyddlondeb.

Mae ganddo lawer o ragoriaethau, yn neillduol fel aelod crefyddol; a dymunaf o eigion calon iddo gael blynyddoedd lawer eto o iechyd a nerth, fel y gall yr eglwysi y mae yn gysylltiedig â hwynt, a'r enwad y cymer gymaint o ddyddordeb ynddo, gael ei gynorthwy a'i gynghor eto megys cynt.

Credaf y bydd yr uchod o ryw ddyddordeb, nid yn gymaint am y dull yr ysgrifenwyd ef, ond am ei fod yn rhoi braslun amherffaith o fywyd diwyd; a gobeithio y bydd i'r darlun a'r nodiadau yma fod o wasanaeth i greu awydd yn rhai o'n lleygwyr ieuainc i dd'od allan i'r maes. Mae'r maes yn eang a'r alwad yn daer, ac yn aml mae y gwaith all lleygwyr ei gyflawni yn fawr a phwysig. Gorwedda llwyddiant ein heglwysi a'n Hysgolion Sul i raddau helaeth gyda hwy. Gobeithio y ca y Gymdeithas leygwr i fod yn llywydd eto'n fuan.

E.O.J.

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD.

(Papyr a ddarllenwyd gan y Parch. Simon Jones, B.A., *yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, Gorph. 3, 1907.)*

Os am deithio gyda'r tren o Abertawe i gyfeiriad y Gorllewin y mae yna ddwy reilffordd yn cynyg i mi eu gwasanaeth. Mae gorsaf un o honynt yn ymyl fy llety ; rhed gyda glan y môr, a sŵn ei rhediad yn tori ar fiwsig ei dònau. Yna dring i fyny ddyffryn cul y Clyne, gyda chydgordiad cân yr adar a gwyrddlesni dail y goedwig, ac anthem afonig ar ei ffordd i'r môr, i lanw llygad a chalon a chlust y teithiwr â'u swyn. Wedi hyn rhed drwy waunydd Killay, a daw i gyffyrddiad â dynoliaeth a masnach ar ei thaith drwy Dunvant a Gowerton. Cychwyna hon yn ymyl, a theithia drwy wlad wych, gyfoethog o ogoniant natur, ac eto heb dori ei chysylltiad â masnach a phobl.

Rhed tren arall o orsaf draw yn mhell ; bryniau moel, diborfa, a amgylchynant ei thaith. Edrycha y teithiwr i lawr ar *backs* ystrydoedd iselaf y dre', ac i fyny ar nen welw gan fŵg y gweithfeydd. Lle brwnt, salw, difiwsig yw amgylchedd y daith hon, a theimla'r teithiwr mai goreu po gyntaf y gwel ben ei yrfa os mai dyma fel y mae i fod. Gwir y cyferfydd y ddwy reilffordd draw yn Gowerton. Cyfarfyddant nid i gydredeg, ond i groesi eu gilydd ; ac mae y gyntaf yn rhedeg ar *level* uwch—ar y *level* ag y mae pobl y lle yn byw arno—ar

LEVEL CREADIGAETH DUW,

ac nid i lawr mewn cadduglyn o waith dwylaw dynion.

Os goddefwch y gydmariaeth, rhywbeth tebyg i hynyna yw'r gwahaniaeth rhwng y Dduwinyddiaeth Newydd a'r Hen. Cychwynai yr Hen Dduwinyddiaeth gyda phrofiad pobl draw yn y gorphenol pell. Ceisia ddeall beth oedd profiadau pobl y Beibl, ac wedi eu deall, neu eu camddeall, rhaid tocio a thaclu y profiad personol i ryw fath o gydymffurfiad â'r profiadau cyntefig hyn. Byd gwael, wedi ei hagru a'i lygru gan bechod yw y byd a wel—rhyw fath o *back view* ga hi ar gymdeithas, a bratiau budron wel yn hofran yn mhobman. Ni amlyga natur ei hun iddi ond i ddangos ei hagrwch, a thrwy gaddug digofaint Duw y tywyna Cariad Dwyfol o Galfaria. Cyfyngder, ing, poen a phechod yw *realities* y byd hwn, yn ol ei thyb hi ; a'r unig obaith yw gogoniant nefoedd y tu hwnt i'r llen. Nid yw bywyd ar y ddaear ond blinder i'r cnawd. Yn yr anialwch ac o dan y cwmwl mae dyn yma, a dim ond yr addewid am y wlad well tu draw i angau a'r bedd a'i gwnai yn werth dyoddef. Ar y cyfan, cronicliad o *tragedies* yw yr Hen Dduwinyddiaeth—y cwymp, y diluw, anufudd-dod parhaus plant y ddaear, a'r Iawn—*tragedies* bob yr un. Ac er nad yw'r Undodiaid Cymreig yn cofleidio yr Hen Dduwinyddiaeth, 'rwy'n tybio weithiau fod yna lawer iawn o athroniaeth y *tragedy* wedi aros yn ei emynau. Ond nid *tragedy* yw bywyd.

CREFYDD GLAN Y MÔR,

a phrydferthwch y dyffryn, ac awelon iachus y bryniau yw crefydd profiad personol dyn. Nid yn mhell o sŵn masnach ac ymdrech dynoliaeth, ond y rhai hyn yn nghanol creadigaeth wyrddlas, flodeuog Duw, a haul Ei Gariad yn taflu ei lewyrch ar y fro.

Gwall yr Hen Dduwinyddiaeth, medd Mr. Campbell, a gwir y gosodiad, nad yw yn cyffwrdd nac yn

esbonio y bywyd ydym yn fyw o ddydd i ddydd. Drwy yr wythnos mae gan fy nghyfaill brofiad personol, cryf, iachus, gwrywaidd. Mae gwybodaeth o ddarganfyddiadau gwyddoniaeth wedi eangu a chyfoethogi ei fywyd. Medda'r gallu i werthfawrogi tlysni'r lili a rhamant bywyd llysieuol ac anifeilaidd y goedwig. Mae wedi cael ryw gipdrem i ryfeddodau y byd anianol, a llawer gwaith y llanwyd ei enaid gan orfoledd digyffelyb wrth fyfyrio drostynt. Yn ei fyfyrgell neu ei fasnach, yn ei faes neu ei weithdy cyffroir ef gan ddyheadau bywiol, meddyliau clir ac aruchel, delweddau doeth ac ysprydoledig. Teimla fod goreu bywyd yn gorwedd yn y pethau hyn. Ynddynt y triga cysur ei adfyd, ac o honynt y bwrlyma ffynhonell ei hawddfyd. Gwreiddyn y bywyd goreu yn ymlochesu yn ei mynwes a'i flagur yn ymagor o'i mysg. Mae ei brofiad yn un byw, sylweddol, nerthol i weithredoedd da. Ond pan ddaw y Sul rhaid, yn ol yr Hen Dduwinyddiaeth, ymwadu â'r rhai hyn oll a cheisio byw yn ol yn moreuddydd hanes, a chydymffurfio â phrofiadau yr oesau gynt nad oent haner mor gyfoethog a'i eiddo ei hun. Teimla y dyn fel pe mewn *museum of antiquities*, a'r drwg yw y ceisir ganddo gredu fod y *mummies* ag anadl einioes yn eu ffroenau.

Ymgais yw'r Dduwinyddiaeth Newydd i esbonio bywyd yn ngoleuni profiad personol yr oes. Cychwyna—lle y mae yn rhaid i bob duwinyddiaeth iach gychwyn—gydag ymwybyddiaeth foesol yr enaid. Nis gwyddom ddim am Dduw ond yr hyn ddysgwn am dano oddiwrth ein profiadau crefyddol. Beth ydyw yn ei anfeidrol hanfod mae'r sant penaf yn gymaint o agnostic a'r materolwr. Er hyny y mae yna fodd i olrhain ac adnabod Duw. Cydnabyddir bellach fod duwinyddiaeth yn wyddor. Gwaith gwyddor yw egluro. Ymdrin daeareg â ffurfiad y ddaear—ffurfiad y mynydd a'r dyffryn, gorweddle y môr, a natur bedd yr oesau fu. Ymwnâ llysieuaeth a theulu y maes, genedigaeth a bodolaeth y llysiau, gogoniant bywyd y blodau—eu ffurf, eu hoffwaith a'u hoffle i drigianu. Chwilia y milofydd (*zoologist*) i fewn i hanes bywyd anifeilaidd y ddaear, o'r milyn distadl ar y traeth i fyny hyd raddau bodolaeth, nes cyrhaedd ei uwchaf nôd yn y dyn. Y mae i bob gwyddor ei maes llafur ei hun Yn mha faes, ynte, yr ymlwybra y duwinydd? Ai nid yn maes profiad crefyddol dynoliaeth? Ei iawn swydd yw,

NID HOLLTI BLEW TESTYNAU,

na bod yn gyntaf peth yn feirniad Beiblaidd, ond cyfieithu dyheadau enaid dyn i iaith deall a rheswm. Newyna yr enaid a sycheda am gyfiawnder. Pa fodd ei diwellir? Egyr o'n blaen ar adegau ddelweddau newydd ac aruchel mewn bywyd. O ba le y deuant? Ca yr enaid aml ymwybyddiaeth o gymundeb â rhyw enaid fel ei hun. Beth yw *secret* a ffynhonell y cymundeb hwn? Dyna'r cwestiwn. Y pethau hyn yw sylfaen gwaith pob duwinydd sydd yn myn'd i lawr at wreiddyn ei bwnc.

Er hyny, gelwir ef yn dduwinydd nid oddiwrth natur sylwedd a sylfaen ei astudiaeth, ond oddiwrth y casgliad ag y mae ei astudiaeth yn ei arwain iddo, h.y., fod profiad crefyddol dyn yn cyfeirio at fodolaeth enaid uwch na'r dynol, yr hwn enaid a alwn yn Dduw. Ond gyda phrofiad personol dyn y cychwyna. Ceisia ei egluro yn ngoleuni gwybodaeth yr oes, am ddynoliaeth, ac am natur. Yma yr ymuna y Dduwinyddiaeth Newydd â'r mudiad mawr rhyddfrydig sydd yn symud drwy yr holl eglwysi. Dechreua yn yr un man, gyda phrofiad personol ac nid profiadau pobl eraill; nesha at y gwaith yn yr un yspryd—

DYHEAD AM Y GWIRIONEDD;

ymdrin âg ef yn yr un dull—y dull gwyddonol, ac ymarfer yr un arfau yn yr orchest, rheswm a chydwybod dyn.

Dyma, i'm tyb i, wedd fwyaf arwyddocaol a chalonogol y mudiad. Ail beth yw cael pobl i gydsynio'n hollol yn eu casgliadau. Yr hyn sy'n bwysig yw eu cael i agoshau at y cwestiwn yn yr un yspryd, a'i drin yn yr un modd.

Pan y try yr efrydydd ei olygon i'w enaid ei hun, olrheinia ddylanwad enaid uwch ar bob profiad o'i eiddo. Pa un ai drwg ai da a wna, daw i ymwybyddiaeth o fodolaeth yr enaid yma mewn bendith neu gosp. Yn ei ymchwil am y gwirionedd cenfydd Dduw; yn ei ddyhead am y da, yn ei gariad, ei obaith, y mae Duw yn bresenol. "Ynddo ef yr ydym yn byw, symud a bod"; ac nid ni yn unig, ond pob mymryn o sylwedd yn wefreiddiedig gan yspryd yr Anfeidrol. Yspryd Duw yw elfen bywyd —yn y gronyn ac yn y graig, yn y rhosyn ac yn y dyn. Mae *tender touch* y Tad ar y cyfan. Dyma wirionedd sylfaenol y Dduwinyddiaeth Newydd — Duw yn mhobman a phobman yn Nuw.

Achwyna rhai fod Mr. Campbell yn ei bwyslais ar hyn yn gwneud i ffwrdd âg uwchfodaeth Duw, yn dileu y syniad Ei fod nid yn unig yn oll a thrwy oll, ond hefyd goruwch oll. Nid yn wirfoddol y gwna Mr. Campbell hyn, os o gwbl, canys dywed fod uwchfodaeth Duw yn 'wirionedd amlwg'; ac i'n tyb ni, 'does dim yn anghyson yn y ddau syniad—Duw yn y greadigaeth ac eto yn fwy, ac felly uwchlaw a thuallan i'r greadigaeth.

Meddyliwch am bregethwr yn gwneud pregeth, ac yn yr yspryd pan yn ei gwneud. Mae pob gair o'r bregeth ag enaid y pregethwr ynddi. Mae ei yspryd yn fflachio yn yr oll—ei bwrpas, ei brofiad, ei feddwl, ei deimlad, mewn gair, ei enaid wedi ymgnawdoli yn ei waith. A phan fyddaf, weithiau, hyd yn oed yn darllen pregeth ambell i brophwyd o bregethwr, 'rwy'n teimlo fod enaid y dyn o hyd yn aros yn y geiriau. Eto mae enaid y dyn yn fwy na'r bregeth. Neu meddyliwch am symudiadau y corph; mae enaid y dyn yn ei gerddediad, yn ei osgo, yn edrychiad ei lygad, yn nghyffyrddiad y llaw. Ni ddigwydd y peth lleiaf yn y corph nad yw'r enaid yn wybyddus o'r ffaith—nid yw'r enaid i raddau yn bresenol ynddo, ond mae'r enaid yn llawer mwy na symudiadau y corph. Ac felly yn union y mae gydag enaid y greadigaeth—*yn* oll ac eto *goruwch* oll.

Perygl y Dduwinyddiaeth Newydd yw, nid anwybyddu uwchfodaeth Duw, ond dileu hunaniaeth dyn. Os mai yspryd Duw sydd yn gweithio yn holl weithredoedd dyn, yn gywir fel y mae yn gweithredu yn y greadigaeth, yna 'does gan ddyn ddim mwy o hunaniaeth na'r gareg neu'r llysieuyn. Nid dyn sy'n gweithredu, ond Duw, yr hwn sydd yn gweithredu drwyddo. Dyma athrawiaeth y bedwaredd efengyl. Medd Iesu yn ol Ioan, "Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru: ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." Ceisia Mr. Campbell dd'od allan o'r anhawsder yn y modd yma. Mae dyn yn gorph, enaid ac yspryd. Y corph yw y ffurf, yr enaid yw'r ymwybyddiaeth o honom ein hunain fel ar wahan i bawb arall ac hefyd i Dduw. Yr yspryd yw Duw yn trigo ynom, a rhwng yr yspryd yma a Duw nid oes gwahaniaeth. Fel yna ceisia ef achub hunaniaeth dyn trwy wahaniaethu rhwng enaid ac yspryd.

Yn fy nuwinyddiaeth i nid oes ond corph ag enaid. Nid yw yr hyn a alwa ef yn 'yspryd' yn perthyn i hanfod dyn o gwbl, ond yn hytrach ymwybyddiaeth yw o gyffyrddiad enaid Duw ag enaid dyn, yn y munudau hyny pan y mae yr enaid dynol wedi

AGOR HOLL FFENESTRI A DRYSAU EI DEML

fel ag i roesawu i fewn Frenin y Gogoniant. Corph ac enaid, a Duw yn cymuno â'r enaid—dyna swm fy mhrofiad personol i mor bell ag y gallaf ei ddeongli. Gwna Mr. Camp-

bell ei oreu i gadw i fewn hunaniaeth dyn, ac eto llithra fel llysywen rhwng ei fysedd, gyda'r canlyniad ei fod yn teimlo ac yn cyfaddef nad oes le o gwbl yn ei gyfundrefn i rydd ewyllys.

Os yw ei gyfundrefn athronyddol yn iawn, nid oes gan ddyn un dewisiad, pa un ai drwg ai da a wna. Gwna ddrwg neu dda, fel y digwydd, mewn ufudd-dod dall i bwerau ei gymeriad a'i amgylchedd, nid oes gyfrifoldeb felly, am nad yw bosibl iddo ar unrhyw adeg weithredu yn wahanol; ac am yr un rheswm nis *gall fod* dwysbigiad cydwybod. Ofergoeliaeth i gyd sy'n peri y dwysbigiad os nad oes dewisiad. 'Does yna chwaith yr un lle i ddewrder moesol yn adeg temtasiwn, yr un anogaeth i ymdrechu yn erbyn drwg. Cwch yw dyn ar frig y tònau, gyda badwyr a rhwyfau, mae'n wir, ond heb yr un llyw i gyfeirio ei gamrau, a siawns yw hi i gyd pa un ai i'r cefnfor, ai i'r hafan, ai ar y graig y gyrir ef.

Fy ngwrthwynebiad cyntaf i hyn yw ei bod yn gwneud

CYNYDD MOESOL YN ANMHOSIBL.

Os nad oes le i ymdrech, nid oes gobaith am gynydd. Gwrthwyneba rhai syniad Campbell am ei fod yn gwneud i ffwrdd â phechod. Ac felly yn wir y gwna, canys nid oes bechod ond trwy weithred wirfoddol. Eto, chreda i fawr fod neb mor hoff o'r ymwybyddiaeth o bechod nag y byddai yn falch i gael ei gwared pe yn bosibl. Tybiaf, weithiau, ein bod wedi gwneud gormod o'r ymwybyddiaeth yma yn y gorphenol, wedi ei gwneud yn faich ac yn orthrwm, a thrwy hyny yn rwystr er cyrhaedd y bywyd uwch. Mae yr hen gyfundrefn wedi myfyrio cymaint ar bechod a diafol nes yr wyf yn synu nad yw ei chofleidwyr wedi ymgyfnewid i'w delw, os gwir y gair y tyf cymeriad dyn i gydymffurfiad â'r hyn y mae yn feddwl arno. Nid oes angen i bwysleisio pechod; mae yn natur pechod y gallu i bwysleisio ei hun.

Os gwir cyfundrefn Mr. Campbell, rhaid gadael i rydd ewyllys fyn'd, gyda chyfrifoldeb ac ymdrech a phechod yn ei mynwes; a rhaid fydd chwilio am ryw ffordd arall i wneud cynydd yn bosibl, a bywyd dyn yn rhywbeth gwell na chorcyn ar yr aig. Ond ai gwir y gyfundrefn? Dywedasom mai gwaith duwinyddiaeth yw esbonio y profiad dynol. A yw yn gyson â'n profiad i ddileu rhydd ewyllys? Ai nid y'm yn teimlo fel yr hen Ddr. Johnson: "Sir," meddai Dr. Johnson wrth ei gyfaill Boswell, ar ol dadl ar y pwnc, "we know our will is free, and there's an end of it."

Mae genym yr ymwybyddiaeth o allu i lywio llong ein bywyd Teimlwn hi yn bosibl ar unrhyw foment ei chyfeirio tua'r cefnfor neu tua'r graig: gwyddom y gallwn wthio allan i'r dwfn a hwylio am ynysoedd prydferth bywyd, neu, ynte, wario ein hamser fel plantos yn chwareu yn y rhydle ger y traeth.

Ni chyflawnasom bechod erioed heb wybod cyn a chwedi nad oedd dim raid i ni ei gyflawni—y gallem fod wedi gweithredu yn wahanol; ac am y rheswm hwn dwysbigid ni yn ddirfawr gan y gydwybod. Mae genym, fel y dywedais, yr ymwybyddiaeth o ewyllys sydd yn rhydd y tu fewn i derfynau—nid yn benrhydd, ond yn abl i ddewis y gwael neu'r gwell; a'r ymwybyddiaeth yma yw'r unig sicrwydd ellir gael o *reality* unrhyw beth. 'Roedd Iesu hefyd—athronydd mawr y galon ddynol—yn credu fod ei ewyllys ef yn wahanol i ewyllys y Tad; a gweddi yr eglwys trwy yr oesau yw, ar i'r dyn unigol fod yn ddigon doeth i ganlyn Crist yn ymdrech Gethsemane, a dywedyd, "Nid fy ewyllys i ond yr eiddot ti, O Dad, a wneler: mi a ddaethum nid i wneuthur fy ewyllys fy hun, ond ewyllys y Tad yr hwn a'm hanfonodd." Y mae yna ddwy ewyllys—eiddo dyn ac eiddo Duw; a phroblem y cadw yw

DWYN EWYLLYS DYN I UNDEB AG EIDDO DUW,

fel y gwneler Ei Ewyllys Ef ar y

ddaear megys ag y gwneir yn y nefoedd.

"Our wills are ours to make them Thine,"

fel y gweddia Keble yn yr emyn. I'm tyb i, nid yw bosibl cael cynydd mewn masnach nac mewn moes. Nid oes edifeirwch na chyfrifoldeb heb rydd ewyllys; ac yn fwy na dim, anwybyddir profiad yr enaid pan y dilëir hi; a beth yw duwinyddiaeth ond profiad yr enaid? Fel mater o ffaith, gwel Mr. Campbell hyn yn dda; ac er nad oes le i rydd ewyllys yn ei gyfundrefn, daw a hi i fewn trwy ddrws y cefn:—

"I will frankly confess that in strict logic I can find no place for the freedom of the will. But we are compelled to overleap logic when considering this matter. No argument will convince us that we have not some power of individual self-direction and self-control."

Ac felly caniata i ddyn yr un rhyddid ag eiddo aderyn yn y *cage*—gall aros ar y ris isaf neu'r uwchaf. Gwall mawr duwinyddiaeth Campbell yw fod yna agendor rhwng ei gyfundrefn athronyddol a'i ddamcaniaeth foesol—gagendor sydd raid ei groesi gyda llam. Ac eto gwell yw y newydd na'r hen; y mae mewn *living touch* â phroblemau bywyd. Mae yn ceisio ateb cwestiynau penaf crefydd, a'i hateb yn ngoleuni goreu gwybodaeih y dydd. Paham ydwyf? yw un o ddyrysbynciau mwyaf dyn. Mae bywyd yn ogoneddus. Mae gallu-oedd corph a meddwl, prydferthwch a rhamant anian, cymwynasgarwch a chariad cyd-ddyn—oll yn gwneud y byd yn baradwys. 'Rwy'n diolch am fywyd er iddo orphen yn y bedd. Eto, wedi'r cyfan, gofynaf weithiau, Paham ydwyf?

"Gwae i mi," meddai Paul, "oni phregethwyf yr efengyl." 'Roedd yna orfodaeth foesol yn ei enaid i gyhoeddi'r gwir. Nid oedd hapus-rwydd na chyflawnder bywyd ond drwy hyny. Dyna'r arlunydd eto. Rhaid iddo yntau drosglwyddo ei feddyldrychau i'r *canvas* cyn y ca heddwch mewnol na hawddfyd. Rhaid i bob dyn ymgnawdoli ei gyn-eddfau yn ei waith cyn y bydd ei fywyd yn gyflawn. Felly yn union, medd y Dduwinyddiaeth Newydd, y mae yn hanes y Tad nefol. Gorfodir Duw gan ei natur ei hun i greu dyn a'r greadigaeth. Wrth ymgnawdoli y sylweddola ei hanfod. Rhaid i Dduw, fel dyn, wrth hunansylwedd-oliad. A dyna phaham yr ydym ni yma. *Poems a paintings* a phreg-ethau Duw ydym ni, ac y mae ein bodolaeth o werth ac hapusrwydd iddo. Nis gwn am ateb gwell, mwy clir, mwy dynol, mwy athronyddol, nac ysprydol na'r ateb yna.

I ddychwelyd, cyn terfynu, at y ffigiwr gyda'r hwn y cychwynasom. Dywedais fod y ddwy reilffordd yn cydgyfarfod i fyny yn ngwddf gor-ynys Gower, ond fod y naill ar *level* uwch na'r llall. Cyferfydd

YR HEN DDUWINYDDIAETH A'R NEWYDD WRTH Y GROES.

Gwel pob un o'r ddwy yno *secret* bywyd a iachawdwriaeth y byd. Cydnabyddant Iesu fel penddeonglwr enaid Duw, a gwelant ynddo unig obaith cynydd a chadwedigaeth dyn. Ond y mae dysgeidiaeth y Dduwin-yddiaeth Newydd yn rhedeg ar *level* foesol llawer uwch na'r hen. Yn ol yr hen drefn, *scheme* y Duwdod oedd marwolaeth Crist ar y groes Nid pwrpas Duw ond *wilful murder* yw dedfryd Campbell pan yn eistedd fel crwner i benderfynu achos marwol-aeth Crist,—"Llofruddiaeth farbar-aidd a melldigedig ydoedd, wedi ei hanog gan ddynion gwael a di-egwyddor er cael gwared o ddysg-awdwr a ystyrient hwy yn beryglus." Bu farw Iesu fel merthyr, heb ddim i ymorphwys arno ond yr argyhoeddiad fod Duw a Gwirionedd yn un, ac y byddai y cyfan rywfodd er daioni yn y diwedd. Bywyd dynol oedd ei fywyd; profiad dynol ac ymwybydd-iaeth ddynol oedd ganddo. Fel dyn

mewn undeb agos â Duw y treuliodd ei oes. Am fod Duw mor gyflawn ynddo, ffrydiai geiriau cariad dros ei wefusau, a gweithredoedd cariad a ganfyddid yn ol ei draed. Perffeithrwydd ei gymeriad oedd *secret* ei ddwfndreiddiad i'r iawn berthynas rhwng Duw a dyn. Efe yw'r unig wir ddyn mae'r byd yma wedi weled, ac yn ardderchogrwydd ei ddyndod ef gwelwn bosiblrwydd aruchel ein dwyfoldeb ni.

Mae ei gymeriad a'i efengyl wedi dwyn bywyd ac anfarwoldeb i'r goleu. Yr unig beth all buro achos cymdeithas heddyw yw'r cariad ffyna yn ei fynwes at y gwael a'r anghenus, at y gwrthodedig a'r gwan. Cariad yw hanfod y Tad ; cariad yw uwchafnod cymeriad y Mab ; cariad yw gwaredwr cymdeithas. Diystyru a gwadu rhwymau cariad yw pechod penaf byd. Yn Iesu y cafodd y cariad yma ei ymgnawdoliad llwyraf, ac felly efe a saif fel ffaith ganolog crefyddol bywyd y byd. Cyduna yr Hen Dduwinyddiaeth a'r Newydd i dalu gwarogaeth iddo. Edmygir ef gan y materolwr a'r gwyddonwr yn ogystal a'r ysprydegwr. Nid oes yr un darganfyddiad yn lleihau mesur mawredd ei bersonoliaeth. Fel y gwellha gwareiddiad, deuir i weled mai yn efengyl Crist y gorwedd y gallu esgynol uwchaf ; a pha beth bynag a'n temtia i droi yn ol o'i ganlyn ef, gwnawn ateb yn ngeiriau Petr, "At bwy yr awn ni? genyt ti y mae geiriau y bywyd tragwyddol."

Credwn mai ar linellau y Dduwinyddiaeth Newydd y gorwedd eglwys y dyfodol—duwinyddiaeth y gwyddonwr, y bardd, yr athronydd a'r sant. Fel holl fudiadau bywyd, mae ynddi luaws o ddiffygion, ond y mae wedi troi ei golygon tua'r iawn gyfeiriad—cyfeiriad Duw a'i fythol ddatguddiadau. Clyw ei lais yn sisial yn yr enaid ; teimla ei yspryd yn cyffwrdd â'r galon. Mae y dduwinyddiaeth sydd yn seiliedig ar brofiad yr enaid, fel y deonglir ef gan wybodaeth uwchaf y dydd, yn graig na syfl yn merw'r lli a'r dymhestl. Anffyddiaeth ni effeithia arni. Y *type* hwn, i'm tyb i, yw'r Dduwinyddiaeth Newydd.

[*Ymddengys anerchiadau y rhai ddilynodd Mr. Jones yn ein nesaf.*]

CENHADAETH CYMRU I'R CENHEDLOEDD.*

Mae i bob ffaith ei hochr faterol a'i hochr ysprydol. Pan y syrth careg i'r llawr y mae'r hyn wêl y crebwyll yn fwy—yn anfeidrol fwy na'r hyn a wêl y llygad.

Dengys yr engraifft hon, ynte, fod yr ochr awgrymiadol, neu'r ochr ysprydol i ffaith yn anfeidrol fwy na'r ochr faterol. I'r meddwl materol nid yw seren ond pwynt o oleuni yn y pellder ; i feddwl y digrebwyll nid yw blodyn y dydd ond ysmotyn gwyn ar y ddôl ; pa faint mwy yw seren a blodyn i lygad y bardd? a pha faint mwy fyth i'r bardd a ŵyr bobpeth a ŵyr dyn am y blodyn a'r seren?

Nid yw teimladaeth a rheswm fyth yn hollol ar wahan. Ni eill yr ym-

*Papyr a ddarllenwyd o flaen Cymdeithas Gymreig Casnewydd, Tymhor 1906-7.

enydd weithio'n galetach heb i'r galon guro'n gyflymach. Mewn geiriau eraill, nid yw'r bardd a'r athronydd, neu'r prophwyd a'r gwyddonwr, os mynech, fyth yn hollol ysgaredig y naill oddiwrth y llall. Y mae'n syndod gymaint wyddai Shakespeare am wyddoniaeth y dydd ; a gŵyr pawb fod Herbert Spencer yn wr o feddwl bywiog, llawn crebwyll a darfelydd, ac yn gynhefin â llenyddiaeth oreu'r oesoedd. Rhydd gwyddoniaeth i ni hanes tarddiad materol dyn a dynoliaeth ; a rhydd hanes a thraddodiad i ni yr agwedd ysprydol ar ddechreuad y byd. Cytuna traddodiad a gwyddoniaeth i'r teulu dynol o'r dechreu darddu o'r un ffynonell : cytuna hanes a gwyddoniaeth hefyd i'r teulu dynol ymwahanu ar ol hyny, fel y gwelir heddyw nid un genedl unffurf, ond ugeiniau lawer o genhedloedd gwahanol hyd wyneb y ddaear. Efallai mai amrywiaeth yw rhyfeddod penaf y greadigaeth. Gwahaniaeth yw gogoniant y cread. Ac y mae'r gogoneddus bob amser yn sefyll ar sail o ddefnyddioldeb. Gogoniant y llymarchen yw y perl, ond nid yw yn llai ei ogoniant am ei fod yn iachau clwyfau'r creadur bychan. Gogoniant tref yw'r eglwys fawr gadeiriol ; nid llai ei gogoniant os yw mewn gwirionedd yn iachau briwiau dynoliaeth. I'r bardd, prydferthwch yw amrywiaeth natur ; i'r gwyddonydd, dosraniad llafur (*division of labour*). Ond eto yr un yw prydferthwch a gogoniant yn y pen draw—

Beauty is truth and truth beauty
Is all we know on earth and all we
need to know.

Gwelwn, ynte, fod deddf amrywiaeth yn rhedeg drwy natur, ac felly ei bod yn gyfraith angenrheidiol drwy anian. Mae yn wir yn y byd mawr materol, yn myd y llysieuau, yn myd yr anifeiliaid, mewn perthynas â dynion unigol—ac mewn perthynas â chenhedloedd hefyd. Mae pob rhywogaeth yn cymeryd llwybr arbenig—yn *specialiso ;* y llew mewn cryfder, yr aderyn mewn edyn, y sarff mewn gwenwyn, yr ewig mewn buander, &c. Yr amrywiaeth hwn sydd yn cadw bywyd i fyned yn ei flaen. Y mae i bobpeth sydd yn dewis byw ei allu arbenig—os nad oes, bydd farw. Yn y pen draw ni fydd dim byw os nad ychwanega at fywyd ac hapusrwydd y byd. Y mae'r doeth lawer gwaith wedi dweyd fod i bob un ei waith ; a'i ddyledswydd mewn bywyd yw yn gyntaf darganfod y gwaith ac ymaflyd ynddo â'i holl nerth. Pan ddêl dyn i'r byd, gellir teimlo'n sicr na fu neb erioed o'r blaen yn hollol yr un fath ag ef. Y mae pob dyn yn allu arbenig ynddo ei hun, ac ni wiw iddo ddynwared neb. Ffol eiddigeddu wrth arall pan y medrwn wrteithio ein talentau arbenig ein hunain. Dywed Emerson :—"Dêl cyfnod yn hanes pob dyn pan y teimla gyda sicrwydd mai anwybodaeth ydyw eiddigedd' ; mai hunanladdiad yw dynwared—fod yn rhaid iddo gymeryd ei hun, er gwell, er gwaeth. Er fod y bydysawd mawr yn llawn daioni, ni ddaw gronyn o ŷd maethlon i'w ran ond drwy y llafur a gyflawna i'r darn tir osodwyd iddo ef ei hun wrteithio. Y mae'r nerth a roddwyd iddo ef yn nerth newydd yn natur. Yr hyn wyf yn geisio egluro parthed y dyn unigol, dyna hefyd deimlaf sydd wir parthed bywyd cenedl. Y mae'r nerth arbenig a roddwyd i genedl yn nerth newydd yn hanes y byd ; a dyledswydd cenedl yw darganfod y nerth hwnw, ac yna ei ddefnyddio hyd eithaf ei gallu, os mai nerth ydyw eill gyfranu at ddedwyddwch a dyrchafiad y cenhedloedd.

Ysgrifenodd Mazzini lawer ar genhadaeth bywyd cenedl pan y ganed yr Eidal newydd tua haner canrif yn ol. Aml y d'wedir nad yw'r Cymry yn genedl o gwbl ac felly nad oes ganddi fel y cyfryw yr un genhadaeth. Yn agwedd faterol y cwestiwn, siopwr yw John Bull ; o leiaf felly d'wedai Napoleon. Ai siopwr hefyd yw John Jones, neu yn hytrach prentis o siopwr i John Bull? Ond dychwelwn at fater cenedl-

aetholdeb. Mewn ateb i'r cwestiwn,

BETH YW CENEDL?

dyma ddywed Renan: — "Enaid byw yw cenedl—egwyddor ysprydol. Cyfansoddir yr egwyddor ysprydol hon gan ddau beth — ydynt mewn gwirionedd yn un—y gorphenol a'r presenol. Etifeddiaeth hir a chyfoethog o'r un adgofion a'r un hanesiaeth yw un; a'r llall yw'r chwenychiad i fyw mewn undeb, a chadw'n gyfan yr etifeddiaeth a dderbyniasom oddiwrth ein tadau. Gorphenol mawr, dynion arwrol, gogoniant y mynedol – gwir ac nid gau ogoniant —dyna'r un a ffurfia ddrychfeddwl o wir genhedlaetholdeb."

Oni phrawf hanes Arthur, Llywelyn, Glyndwr, Dafydd ap Gwilym, Y Mabinogion, a Cheiriog — oni phrofa y rhai'n oll ein cenedlaetholdeb i'r carn? Fel cenedl, ynte,

BETH YW EIN CENHADAETH YN Y BYD?

Beth sydd genym i ddysgu i'r cenhedloedd?

Yn y *London Daily News* am y Sadwrn diweddaf—(Chwefror 2il)—dywed G. K. Chesterton fod y byd wedi cael ei ysprydoli gyntaf gan genhedloedd bychain — ("The world has always been first inspired by small nations").

A phwy sydd wedi ysprydoli'r byd yn fwy na chenhedloedd Groeg ac Israel—cenedl Homer a chelf, cenedl Beibl a chrefydd? Ond er fod y Groegwr gynt wedi dirywio, a chenhedloedd Israel ar grwydr hyd wyneb y ddaear, eto erys colofnau Athen, ac y mae caniadau Seion yn ysprydoli cenhedloedd y byd. Yn y pen draw y mae cân eos yn fil mwy nerthol na chryfdwr eryr; ac y mae celfyddyd Groeg wedi gorchfygu'r byd yn fwy na llengoedd Rhufain. Yn y gorphenol y mae Cymru hefyd wedi gorchfygu Ewrob — nid gyda llinynau'r bŵa, ond â thanau telyn.

Gwrandewch ddyfyniad eto o lyfr Ffrancaeg ar "Hanes Llenyddiaeth y Byd," mewn desgrifiad o'r byd yn y canoloesoedd:—"Nid oedd braidd olion gwybodaeth a chân i'w gweled yn un man yn Ewrob; yr oeddynt yn nghudd mewn mynachlogydd anghysbell, dan ofal etifeddion anuniongyrchol Alexandria a'r Dwyrain. Rhaid oedd chwilio mynachdai Cymru a'r Iwerddon, lle yr oedd meddylwyr yn aros a dynent eu hysprydoliaeth o dair ffynhonell — y Beibl, Homer, a Barddoniaeth Geltaidd." Nid wyf am ddyfynu o awduron Cymreig i alw sylw at ein gogoniant—pan y mae ysgrifenwyr o genhedloedd eraill yn barod i'n canmol.

Yn y pen draw nid mater ond yspryd sydd yn gorchfygu'r byd. Nid cleddyf Arthur ond ei yspryd arwrol sydd wedi concro Ewrob—o'r Eidal i Norway ac o'r Iwerddon i Awstria. Yn y canoloesoedd y Mabinogion Cymreig gawsant fwyaf o ddylanwad ar lenyddiaeth a bywyd Ewrob. O Gymru, mi gredaf, y ffrydiodd ysprydoliaeth farchogol (*spirit of chivalry*) yn y canoloesoedd. Y chwedleuon hyn a ddysgasant i'r byd

URDDAS ARWROL GWR A PHRYDFERTHWCH CYSEGREDIG MERCH.

Yn llenyddiaeth y Celtiaid dywed Matthew Arnold ei fod yn teimlo bob amser arucheledd arddull, a dywed fod genym fel Cymry athrylith yn y cyfeiriad hwn—"the Celts have a genius for style"—urddas iaith sydd yn rhwym o fod yn seiliedig ar urddas meddwl. A sylwa yn neilldual ar brophwydoliaeth Taliesin, fel ei gelwir:—

Eu Ner a folant,
Eu hiaith a gadwant,
Eu tir a gollant,
Ond Gwyllt Walia.

"I ba gyfnod bynag y perthyn y brophwydoliaeth hon," medd Arnold, "onid yw yn dangos y teimlad am arddull—'the feeling for style'—ac y mae'r un peth yn wirionedd am y trioedd Cymreig."

Dengys yr un beirniad craff a theimladwy fod yr un yspryd i'w glywed yn marddoniaeth y bardd Albanaidd Ossian, faint bynag o'i weithiau a berthyn i McPherson. Er mwyn egluro'r yspryd cyfrin Celtaidd hwn, cyfieithaf ddarn o Ossian a ddyfynir yn Saesneg gan Matthew Arnold :—"Gwelais furiau Balclutha, ac yr oeddynt anghyfanedd. Edrychai y gadnawes allan drwy ei ffenestri, a phorfa fras y muriau a ymdonent o gylch ei phen. Dyrchwch gân o alar, O ! feirdd, dros wlad yr estroniaid, nid ydynt ond wedi syrthio o'n blaen ; ninau hefyd a syrthiwn yn ein dydd. Paham yr adeiladi neuadd, fab y dyddiau adeiniog ? Edrychi o'th dyrau heddyw, eto, ychydig flynyddau, a dêl anadl difäol y diffaethwch ; uda'r gwynt drwy wagedd dy lys, a chwibana oddiamgylch dy darian haner-dreuliedig. Deued awelon difäol y diffaethwch ; ni a fyddwn enwog yn ein dydd." Nid wyf am i chwi gredu'r cyfan o'r efengyl yn ol Matthew Arnold ; ond credaf fod barn estron bob amser yn ddyddorol ar gwestiwn fel teithi cenhedloedd.

Awgryma hyn oll fod cenedl y Cymry yn berchen ar rhyw fath o

YSPRYDOLRWYDD CYFRIN

sydd yn hollol arbenig—rhyw athrylith ddofn sydd yn hollol Gymreig ; hefyd y mae'r athrylith hono yn y gorphenol wedi deffro a dyrchafu cenhedloedd eraill ; yn enwedig yn y canoloesoedd. Y cwestiwn ydyw, Ai byw ai marw yr athrylith hon sydd wedi nodweddu Cymru yn y gorphenol.

Sylwn ar hanes y tair canrif ddiweddaf — onid y diwygiadau yw'r nodweddion amlycaf yn hanes ddiweddar ein cenedl ? Y mae'r deffroadau ysprydol hyn, i'm tyb i, yn dangos bywyd yr yspryd gwir Gymreig yn fwy na dim arall yn yr oesoedd newydd fyned heibio. Yspryd Cymreig yw yspryd y diwygiadau — nid yw'n mhellach o fod yn yspryd y dwyfol o herwydd hyny. Ac efallai mai drwy yr yspryd hwn y mae Cymru wedi effeithio ar y byd fwyaf yn y dyddiau diweddaf hyn Y mae

DYLANWADAU CHRISTMAS EVANS

wedi cyrhaedd nid yn unig yn mhell tu hwnt i Glawdd Offa, ond hefyd dros dònau'r Atlantig ; a phwy all fesur dylanwad Charles o'r Bala ar hanes Cristionogaeth ? Yn ol fy nhyb i yr yspryd Cymreig sydd wedi tori allan yn y diwygiadau crefyddol —hwnw sydd i fod yn nerth eto i Gymru'r dyfodol.

Nid wyf am ddweyd pobpeth sydd dda am y cynhyrfiadau rhyfedd hyn — eto ffolineb rhoddi o'r neilldu nerth ager am ei fod weithiau yn dryllio'r peiriant ; neu ddiystyru'r trydan am ei fod weithiau yn poethi gwifrau nes eu toddi, a thaflu llawer i ddyryswch a pherygl. Y mae'n ffaith ryfedd iawn yn hanes Cymru fel yn hanes y byd, fod deffroad crefyddol wedi cael ei ddilyn gan ddeffroad meddyliol hefyd.

Y MAE GOLEUNI BOB AMSER WEDI DILYN GWRES.

Dywed Dr. Cynddylan Jones fel y canlyn ar y mater hwn :—"Rhodd y diwygiad cyntaf i ni ein hemynyddiaeth ; yr ail ein duwinyddiaeth ; a'r trydydd ein cyfundrefn addysg, yr hon, yn marn awdurdodau addas, nid yw'n ail i'r un gyfundrefn yn y byd heddyw. Y mae pob diwygiad, fel y Nile pan lifo dros ei glanau, yn gadael olion cyfoethog yn y tir i ffrwythloni cymeriad y genedl."

Y mae'r diwygiad diweddar wedi dystewi ; beth sydd i'w ganlyn ? Mi gredaf fod meddwl Cymru'n fwy effro nag y bu erioed o'r blaen. Mi gredaf hefyd fod y goleu sydd yn canlyn gwres y diwygiad eisioes i'w weled. Y mae mwy o son am gadw'r iaith nag erioed o'r blaen. Onid yr iaith Gymraeg gan mwyaf fu gyfrwng y gwres ? Cadwn hi eto i wresogi'r dyfodol, a'i goleuo hefyd. Cywreinrwydd oedd teimlad llawer parthed

i'r diwygiad diweddaf; ond drwy lawer rhan o'r byd tu allan i Gymru cynyrchwyd teimladau dyfnach na chywreinrwydd. Y mae Cymru wedi cyneu tân ysprydol yn ddiweddar; credaf y dilyn goleuni ysprydol a meddyliol, nid i oleuo Cymru yn unig, ond i daflu ei belydrau drwy'r holl fyd.

Credaf fod gan Gymru i ail ddysgu i'r byd y pethau canlynol :—

(1) Y gall cenedl fechan wneud concwest ysprydol ar genedl fawr; cryfach cleddyf yr yspryd na chleddyf dur.

(2) Mai uwch yw byd y meddwl na byd mater; ac mai uwch yr ysprydol na'r ddau.

(3) Nad drwy ymgolli yn yr hyn a elwir *cosmopolitanism* y dadblygir y ddynoliaeth oreu.

(4) Mai heb iaith heb genedl. Nid un iaith a siariedir yn y milflwyddiant ond dwy—iaith y byd ac iaith yr aelwyd.

(5) Mai drwy fod y Cymro goreu, y gall un fod yn ddyn goreu. Rhaid i bob cenedl ddadblygu yn ei chyfeiriad ei hun.

Credaf y gwelaf genhadaeth fendigedig i Gymru yn mhlith y cenhedloedd—dal delfryd uchel o'u blaen. Cenedl o *ideals* yw cenedl y Cymry. Ond ofer pregethu *ideals*. Y cwestiwn yw—Pa beth i'w wneud? Gaf fi fod mor hyf ac awgrymu rhai pethau y dylem anelu atynt yn ymarferol :—

(1) Ychwanegu at barch ac urddas y Cymro fel Cymro drwy osod ei iaith, ei lenyddiaeth a'i hanes ochr yn ochr âg eiddo cenhedloedd y byd.

(2) Uno pob cymdeithas Gymreig â'u gilydd, a mynu gweled fod yr iaith yn cael ei lle yn ei chyfundrefn addysg. Nid ydym ond *poor imitations* o'r Sais fel y dygir ni i fyny y dyddiau hyn.

(3) Mynu gosod i lawr Sais-addoliaeth a Dic-Sion-Dafyddiaeth yn ein gwlad. Ni fu erioed fwy o honynt nag heddyw.

(4) Cenedl werinol ydym, llenyddiaeth werinol sydd genym; felly rhaid anghofio safonau ysgolheigiol Lloegr wrth farnu ein hiaith a'n cenedl. Y werin Gymreig fydd nerth y dyfodol fel y mae wedi bod yn y gorphenol.

(5) Rhaid dadblygu a pherffeithio'r Eisteddfod fel y gwnelo apelio'n fwy at y werin, ac nid ei gwneud yn fath o arddangosfa i dynu gwehilion gwlad i'w throi yn destyn gwawd.

Rhagor o undeb rhwng Cymry Cymreig—hyny sydd wedi bod yn eisiau hyd y canrifoedd, a hyny sydd eisiau heddyw. Rhagor o undeb, a rhagor o wir waith—nid yn unig yn mysg dysgedigion, ond yn mhlith y werin hefyd.

Pe baem yn uno fel Cymry Cymreig—a mynu i'r yspryd Cymreig goreu gael gwneud ei ran—byddai genym ysgolion gwell, athrofa well, cawsem

UN CYLCHGRAWN CENEDLAETHOL

o ddigon teilyngdod i bob Cymro deimlo ei fod yn werth i'w ddarllen o glawr i glawr, cawsem ymreolaeth Gymreig i raddau pell, ac yn fuan delai yn fodel i genhedloedd y byd. Drwy hyn parchem Gymru'n fwy, a pherchid Cymru'n fwy gan y byd—a chariai ei dylanwad o ysprydoli tuedd faterol yr oes—i anadlu ei hanadl Gymreig ar esgyrn sychion bydolrwydd y cenhedloedd.

Mae'r hen yspryd yn fyw ar ddechreu'r ganrif, ac fe fydd byw am ganrifoedd eto. Y mae Eifion Wyn wedi canu'n well nas medraf fi adrodd fy meddyliau :—

Ger y porth mae'th fardd yn canu—
"Byw, fy nghenedl, fo dy lên :
Cenir it' farddoniaeth newydd
Cystal a'th farddoniaeth hen ;
Cyfod dithau'n sŵn y delyn,
Fel y dydd y gwnaed dy frâd :
Ni ddaw eto Forfa Rhuddlan
Ar dy ymdrechfeydd, fy ngwlad."

Ger y porth mae'r athraw'n galw—
"O! fy nghenedl, canlyn fi:
Yn nghymanfa y cenhedloedd
Cedwir heddyw le i ti;
Golch dy lygad â goleuni,
Eiddot y meddylfryd mawr:
Bydd yn Roeg y ganrif newydd
Wlad marchogion Arthur Fawr.

SARNICOL.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas uchod Gorphenaf 3ydd a'r 4ydd, yn Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, ac fe drodd allan yn dra llwyddianus er llawenydd mawr i'r hen frawd sydd yn bugeilio yno. Yr oedd y cynulliadau yn foddhaol iawn a'r pregethau a'r areithiau yn rhagorol, fel y mae lle i obeithio fod yna hâd da wedi ei hau ac y dŵg ffrwyth bendithiol. Daeth y gweinidogion yn gryno yn nghyd—credwn mai rhyw ddau yn unig oedd yn absenol, a theimla'r gweinidog a'i gynulleidfa yn ddiolchgar am eu ffyddlondeb. Tipyn yn siomedig y buwyd gyda'r trefniadau ar y dechreu. Methodd y Parch. E. Gwilym Evans a dyfod oherwydd afiechyd, a methodd y Parch. E. Ceredig Jones a dyfod oherwydd angladd aelod pwysig yn ei gynulleidfa; ond profodd yr hen frawd o Alltyplacca, megys llawer tro o'r blaen, yn ddigonol i lanw'r adwy, er mai rhy fyr oedd ei anadl i foddio rhai, tra y barnai eraill mai gwell rhy fyr na rhy hir.

Nos Fercher, am 5, cyfarfyddodd y Pwyllgor Arianol; am 7 dechreuwyd gan J. P. Kane, ac yna cawd cwrdd agored. Darllenwyd papyr gan Simon Jones ar bwnc llosgawl y Dduwinyddiaeth Newydd, yr hwn gyhoeddir yn y rhifyn hwn, ac ar ei ol llefarwyd i bwrpas gan Evans, Cribyn; Hathren, D. G. Rees, W. J. Phillips ac Evans, Highland Place. Yna ceisiwyd gan J. Davies ddweyd gair ac i ddibenu'r cwrdd; dywedodd 'air' a dibenodd y cwrdd.

Dechreuwyd y gwaith boreu dydd Iau gyda chynhaliad y Pwyllgor Cyffredinol. Yr unig nodyn trist yn ngweithrediadau'r pwyllgor ydoedd ymddiswyddiad anocheladwy yr ysgrifenydd, y Parch. W. James, B.A., Y.H. Am flynyddoedd lawer y mae Mr. James wedi bod yn un o'r pileri cryfaf i Undodiaeth Gymreig. Fel ysgrifenydd y Gymdeithas, fel cyddolygydd YR YMOFYNYDD, fel pencynghorwr yr holl eglwysi, fel hyfforddwr a chyfarwyddwr myfyrwyr, y mae wedi llunio cymeriad crefydd rydd yn Nghymru. Gobeithiwn a gweddiwn ar iddo gael ei adferu yn fuan i'w iechyd, fel y cawn eto yn y dyfodol agos ein harwain gyda'i ymdrechion, ein cyfarwyddo gyda'i gynghorion, a'n hysprydoli gyda'i ysgrifbin. Edrydd arall helyntion y pwyllgor. Am 11 dechreuwyd gan y Parch. John Davies a phregethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas. Am 2.30 dechreuwyd gan y Parch. Lewis Williams, a thraddododd Cadben Davies ei anerchiad o'r gadair. Ar gynygiad y Parch. J. Davies ac eiliad y Parch. R. J. Jones, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r Llywydd am ei wasanaeth gwerthfawr yn ystod y flwyddyn. Wedi hyny pregethodd y Parch. W. Alfa Richards, Gelli-onen. Yn yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. W. J. Phillips, a phregethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a John Davies. Yr olaf ydoedd Pregeth y Gymdeithas, ac yr oedd yn deilwng o'r achlysur a'r pregethwr.

Y PWYLLGOR.

Y Llywydd, Cadben Davies yn y gadair. Darllenwyd adroddiadau y Trysorydd a'r Ysgrifenydd, yr olaf yn gofyn am ryddhad swyddogol o'r Gymdeithas ar gyfrif ei afiechyd. Yr oedd yn ddrwg gan y pwyllgor orfod derbyn ymddiswyddiad Mr. James, fel ysgrifenydd y Gymdeithas a chyd-olygydd YR YMOFYNYDD; a phasiwyd yn unfrydol bleidlais o ddiolchgarwch gwresog iddo am ei lafur ffyddlon, ei frwdfrydedd gwresog, a'r gwasanaeth hir y mae wedi ddangos tuag at ein henwad bychan yn Nghymru; ac yn mhellach ein bod yn datgan ein cydymdeimlad llwyraf âg ef yn ei afiechyd, ac yn dymuno iddo adferiad buan.

Etholwyd y rhai canlynol yn swyddogion am y flwyddyn :—Llywydd, Cadben Davies; Is-lywydd, y Parch. W. James, B.A., Y.H.; Trysorydd, Mr. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul; Ysgrifenydd, y Parch. T. Arthur Thomas; Archwilwyr, Mri. D. J. Jones, Broniestin, ac L. N. Williams. Cadarnhawyd adroddiad y Pwyllgor Arianol. Y rhai canlynol i fod yn Bwyllgor Arianol am y flwyddyn nesaf:—Y Swyddogion, yn nghyd a'r Parchn. R. J. Jones, R. C. Jones a David Evans, Cribyn. Etholwyd y Parch. T. Arthur Thomas a Sarnicol yn Olygwyr YR YMOFYNYDD. Gadawyd lle cynhaliad y Cyfarfodydd Chwarterol yn llaw yr Ysgrifenydd, a phasiwyd cynal Cyfarfodydd Blynyddol 1908 yn Llandyssul. Etholwyd yr Ysgrifenydd i fod yn gynrychiolydd y Gymdeithas yn Nghyfarfodydd Boston gynhelir mis Medi nesaf.

ADRAN YR YSGOL SUL.

Yr Is-lywydd, y Parch. D. G. Rees, Bridgend, yn y gadair. Darllenwyd Adroddiad yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd, a dangosai y fantolen fod y gweddill mewn llaw yn £6 7s. 3c. Penderfynwyd nas gellid myned i'r draul o gyhoeddi gwersi ar gyfer Safonau III. a IV. gan nad oes ond ychydig iawn o honynt wedi cael eu gwerthu y blynyddoedd diweddaf. Penderfynwyd fod gwersi i gael eu cyhoeddi ar gyfer Safonau I. a II., ac fod y Parch. D. Evans, Cribyn, i ddwyn allan ar draul y gymdeithas ail-argraffiad o'i Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist, ac i gynwys ynddo wersi ar gyfer Safon I., yn nghyd ag ychwanegiadau eraill. Dewiswyd Mr. D. Tyssul Davies, Aberdar, yn Is-lywydd, yr Ysgrifenydd a'r Trysorydd i aros fel o'r blaen.—L.W.

MARWGOFION.

MEHEFIN 21ain, yn 84 mlwydd oed, bu farw Thomas Thomas, Gwarcwm, Llanwnen. Er nad oedd iechyd ein cyfaill wedi bod yn dda er's misoedd, eto bu ei symudiad yn un tra disymwth. Gadawodd weddw, un ferch a phedwar mab i alaru ar ei ol. Nerth a gaffo'r ferch i wylied ar ei mam oedranus dros y gweddill o'i thaith. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Capelygroes y dydd Mawrth canlynol, pryd y talwyd iddo y gymwynas olaf gan nifer luosog iawn. Pregethwyd yn y capel gan y gweinidog, a chymerodd y Parchn. T. Arthur Thomas a J. Davies ran yn y gwasanaeth.

MEHEFIN 28ain, John Davies, Mount, ger Cribyn, yn 33 oed, ar ol cystudd byr. Claddwyd yn mynwent

Capelygroes y dydd Mawrth canlynol. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. J. C. Owen, Ystrad, a gwasanaethwyd yn y capel gan y gweinidog.

Gorphenaf 3ydd, Mary Jones, Fountain, Ciliau, yn 64 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn aelod o eglwys Caeronen, ac yr oedd ganddi gariad mawr at yr achos, er ei bod er's blynyddau, o leiaf, wedi ei hanalluogi gan afiechyd i roddi ei phresenoldeb yn aml yn yr addoliad cyhoeddus. Mae hi bellach wedi ei chymeryd oddiwrth ei gwaith at ei gwobr; ac y mae symudiad y naill aelod ar ol y llall yn y fel yma'n galw'n uchel ar y rhai sydd ar ol am beidio llaesu dwylaw gyda'r achos goreu. Gadawodd ddau fab mewn galar dwfn ar ei hol; ac nid oes eisiau gwell prawf o'u cariad tuag ati a'u galar ar ei hol na'r modd tirion ac anrhydeddus y darfu iddynt ymddwyn tuag ati'n ystod ei hir fethiant, a dyma eu cysur goreu heddyw wrth edrych yn ol ar yr hyn a fu. Yr oedd y dorf luosog a ddaeth i dalu iddi y gymwynas olaf yn llefaru'n uchel am y parch oedd gan ei chydnabod at yr ymadawedig ei hunan yn ogystal ag at ei phlant. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan Reithor y plwyf.

Boreu Sul, Gorphenaf 14eg, yn 70 mlwydd oed, bu farw yr hen dad duwiol a pharchus, Evan Bevan, Trebanos. Cyfyngwyd ef i'w anedd er ys blwyddi lawer, a dyoddefodd yr oll yn dawel a dirwgnach. Yr Iau dilynol claddwyd wrth Gellionen; pregethodd y Parch. Alfa Richards yn dyner ac i bwrpas, a gweddiodd y Parch. D. G. Jones, Soar, Pontardawe, ar lan y bedd. Bydded i'r plant gysuro eu mam yn ei hadfyd trwm ar ol ei chydmar hoff ac anwyl.

Os heneiddio wnaeth y babell,
Parhau'n ieuanc mae y dyn:
Mae pob da yn byw i gymhell
At y gweddnewidiad cun.—Banos.

Gorphenaf 18, yn ddau fis oed, Sarah, merch fechan Mr. a Mrs. Davies, Ffosesgob. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Carmel, y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. W. V. Edwards.

Gorphenaf 19, yn dri mis oed, Mary Hannah, baban David a Letitia Davies, Rhosgochganol. Claddwyd y Llun canlynol yn Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. Lloyd ac yn y fynwent gan y Parch. E. O. Jenkins.

Gorphenaf 26, yn 15 oed, Rachel, merch Thomas a Jane Thomas, New Forge, Pontshan. Cafodd yr eneth ieuanc gystudd maith a chaled, ac er gofal tyner rhieni a meddygon, ar y dydd uchod diangodd o bob cystudd a phoen, a galluoger y rhai adawodd ar ol i ddweyd, "ewyllys yr Arglwydd a wneler." Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn nghladdfa eglwys St. John. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. Arthur Thomas ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y Parch. J. R. Jones, Ficer y plwyf.

MANION AC HANESION.

Gwelliant Gwallau.—Tudalen 152, col. 2.—"estyna ei law at y ganwyll a llosg hi." 153, col. 2.—"A *ydym* yn ymylu. 155, col. 1.—"dywed [cydwybod fod] un cymhellydd," &c.

Capelycwm.—Nos Sul, Gor. 7, talodd Ysgol Sul Annibynwyr Brynteg ymweliad â Chapelycwm, i ganu ac adrodd rhanau o'r Ysgrythyrau. Yr oedd yn cael ei gwneud i fyny o ddwy ran—yr ysgol fach a'r ysgol

fawr. Holwyd y blaenaf ac arweiniwyd y canu'n fedrus iawn gan ei gweinidog, y Parch. P. H. Lewis, tra yr holwyd yr olaf yn oreu y gallai, gan weinidog y Cwm. Ar y diwedd, wrth dalu diolchgarwch i'r Ysgolion am eu hymweliad, a'r gwaith da oeddent wedi wneud, dywedai y gweinidog ei fod yn llawenhau yn yr ystyriaeth fod brawdgarwch yn myned ar gynydd yn mhlith y gwahanol enwadau, ac yr hiraethai am weled y dydd pan "yr ymgyfarfyddom oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist."

Y Graig a Gellionen.—Prydnawn, a nos Sul, Meh. 30, cynhaliwyd dau gwrdd adrodd yn y Graig ; gan y plantos bychain, y prydnawn ; ac yn yr hwyr gan y plant mawr ; ond yn sicr i chwi, mae y plant bychain yn drech na rhai mawr ; ac yr oedd yn bleser calon i glywed a gweled y plant lleiaf yn gwneud eu gwaith mor dda.

Darfu i Alfa gipio y gadair a'r pres yn eisteddfod fawreddog Clydach-ar-Dawe, Gor. 27. Hefyd daeth Master Isaac Emlyn Hopkin allan yn ail ar y berdoneg, o nifer fawr o gystadleuwyr.

Treorchy—Gor. 11, talodd y Parch. Gertrude Von Petzold, M.A., Leicester, ymweliad â'r lle uchod, a phregethodd yn ardderchog iawn i dyrfa fawr yn nghapel y Primitive Methodists, Station Road, yr hwn roddwyd at wasanaeth ein brodyr Undodaidd yn y lle. Teimlad pawb oedd iddynt gael gwir wledd yspryd-ol gan y foneddiges hyawdl.

Pentre.—Dydd Sul, yr 21ain, cynaliodd y gynulleidfa ei chyfarfodydd blynyddol. Y gweinidogion fuont yn gwasanaethu oeddynt y Parchn. Alfa Richards a D. G. Rees. Er gwaetha'r tywydd anyoddefol boeth, cafwyd oedfaon da a phregethu grymus. Pregethodd yr olaf yn Saesneg prydnawn a nos Sul.—Cynaliwyd yr ŵyl dê flynyddol ar y Llun canlynol. Rhwystrwyd llwyddiant yr ŵyl dê i ryw fesur gan yr ystorm ofnadwy o fellt a tharanau, a'r diluw o wlaw a chesair a ddaeth dros y Cwm tua chwech o'r gloch Ond er gwaethaf yr anhawsderau o bob math, yr oedd yn dda genym weled brodyr a chwiorydd Undodaidd wedi d'od ar y Sul a'r Llun o Clydach Vale a'r Rhondda Fach i gynorthwyo ac i galonogi â'u gwasanaeth ac â'u presenoldeb.

Penybont.—Nos Sul, Gor. 7fed, rhoddodd Côr yr Ysgol Sul, tan arweiniad medrus Mr. Tom Jones, Caerfoel (yn awr o Ysgol y Cynghor, Penybont) berfformiad o'r 'Flower Service of Praise and Prayer.' Gwnaeth y Côr ei waith yn rhagorol. Yr oedd y gwragedd wedi bod yn ddiwyd a phrysur yn addurno'r hen gapel â phlanhigion a blodau. Pregethodd y gweinidog yn bwrpasol oddiar y geiriau "Harddaf hefyd le fy nhraed," Isaiah 60: 13. Y peth mwyaf hyfryd efallai yn yr holl wasanaeth oedd gweled y plant bach yn dod yn mlaen yn drefnus, yn un ac un, a thwsw o flodau yn eu dwylaw ; ac yn eu gosod ar y bwrdd gerllaw'r pwlpud. Tranoeth danfonwyd y blodau i'r Cottage Hospital ac i'r Union Infirmary. Cymerwyd casgliad tuag at drysorfa yr Ysgol Sul.

Cafwyd pleserdaith flynyddol yr Ysgol Sul ar ddydd Mercher, y 24ain o Orphenaf. Aeth tua chant—yn cael eu gwneud i fyny o tua thriugain a thri o blant, a'u rhieni a'u cyfeillion—tua Ogwr-ar-y-môr mewn cerbydau a wageni. Cafwyd benthyg y rhan amlaf o'r cerbydau a'r wageni gan fasnachwyr y dref—caredigrwydd a werthfawrogwyd i'r eithaf. Gwnaed darpariadau ar gyfer y dyn anianol mewn pabell eang a chyfleus a roddwyd i fynu yn arbenig ar ein cyfer am y diwrnod. Treuliwyd diwrnod difyr a diddan trwy ymdrochi a bracso yn y môr, rhedegfeydd, *tugs-of-war*, &c., yn ngolwg bryniau Gwlad yr Haf, ar lan culfor Bryste. Yr oedd yr hin yn wresog a mwynaidd, a daeth pawb adref yn flinedig ar ol ymdrechion y dydd, ond yn ddedwydd.

Cymanfa Gerddorol Ceredigion.—Cynhaliwyd pwyllgor blyn-

yddol yr uchod yn Nghapelybryn, Cwrtnewydd, dydd Sul, Gor. 7. Yr oedd yn bresenol gynrychiolwyr o'r holl eglwysi. Cadeiriwyd gan Cadben Davies. Pasiwyd y fantolen, yr hon oedd yn ffafriol. Pasiwyd cynal y gymanfa nesaf yn Aberayron tua'r ail wythnos yn Mehefin, ac mae'r Methodistiaid yno yn barod wedi addaw benthyg eu capel. Dewiswyd y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield, yn unfrydol, i arwain, ar ol iddo gael mwyafrif yn gyntaf drwy y tugel. Y llywyddion ydynt y Mri. John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul a J. M. Howell, C.C., Aberayron; a'r cyfeilyddesau—Mrs. P.C.Thomas, Llandyssul a Miss Grace Jenkins, Blaenwaun. Neillduir cyfarfod y boreu yn llwyr i'r plant. Tonau y plant ydynt:—"Awn i Ganaan," "Telynau y Plant," "Nearer Home," "Fy nghartref sydd fry." "Drylliwyd y Delyn" ydyw'r anthem. Dyna fraslun o weithrediadau y Pwyllgor yn Nghwrtnewydd. Hyderir yn fawr y gwna pob eglwys fwy o ymdrech nag arfer yn y flwyddyn sydd yn dod, gan ein bod wedi penderfynu myned ychydig allan o'r cylch Undodaidd i gynal ein cymanfa nesaf. Bwriedir cael y rhaglen allan ar unwaith.

D. Jones, *Ysg.*

Aberystwyth.—Sul, Gorphenaf 14, traddodwyd anerchiad gan y Parch. John William Brown, yn y capel Undodaidd yma. Ei bwnc ydoedd "Amddiffyniad o Mr. Campbell." Ymddengys fod Mr. Brown, pan yn weinidog yn Chatham, yn gyfaill personol i Mr. Campbell, ond y mae yn awr wedi ymneillduo o'r weinidogaeth ac yn byw yn Aberystwyth, ac yn aelod gweithgar a defnyddiol o eglwys New Street.

Bwlchyfadfa.—Da genym ddeall fod capel newydd y Bwlch wedi ei glirio o bob dyled, ac y mae yn llawenydd genym allu llongyfarch yr eglwys a'r gweinidog ar fod eu hymdrechion wedi eu coroni a chymaint o lwyddiant. Dydd Sul, yr 28ain, bu yno gyfarfodydd neillduol, pryd y pregethwyd i gynulliadau mawrion gan Mri. James G. Davies, John Davies, ac S. E. Bowen, myfyrwyr o Goleg yr Home Missionary, Manchester.

Mr. J. Park Davies, B.A., B.D.—Y mae yn bleser genym allu llongyfarch y brawd uchod ar ei lwyddiant diweddaf, yn enill y gradd o B.D., yn Mhrifysgol Harvard, Unol Dalaethau America. Yr oedd yn barod wedi graddio gydag anrhydedd yn Mhrifysgolion Cymru a Rhydychen, ac y mae yn awr yn barod i waith y weinidogaeth, a'i gryman wedi ei awchlymu. Y mae ei yrfa ddisglaer fel myfyriwr yn flaenbrawf, ni a hyderwn, o yrfa fwy disglaer fel gweinidog da i Iesu Grist.

Cynllun Iachawdwriaeth.—"Cofus genyf iddo (Watcyn Wyn) fflamio unwaith pan yn ymddiddan gyda thri o bregethwyr ar lawnt y Gwynfryn, oherwydd i un o honynt gyfeirio at 'gynllun iachawdwriaeth.' 'Cynllun Ianci yw hwna,' meddai, 'nid cynllun Duw! 'Does dim yn fy nghynyrfu i yn fwy na chlywed dynion yn gwneud mashîn o iachawdwriaeth. Duw y rhai yna yw 'niawl i!' Siaradai yr un mor gryf am bob duwinyddiaeth a chredo na fuasai yn rhoi y pwyslais cyntaf ar Dadolaeth Duw. 'Dechreuwch gydag E' fel Tad,' meddai, 'ac fe fyddwch yn siwr o ddiweddu'n iawn.'"—*Elwyn yn 'Ngheninen Gwyl Dewi,' 1907.*

Crefydd Stiff.—Wil Morris oedd yn cynghori tipyn yn y Seiat. "Sonir heddyw am lawer math o grefydd. Dyna grefydd dydd Sul a chrefydd pob dydd; crefydd dydd gwyl a chrefydd dydd gwaith; crefydd i'w phroffesu a chrefydd i'w byw. Ond a glywsoch chwi erioed am grefydd stiff? Pa fath grefydd oedd hono, meddwch. Wel, mi ddeyda wrthych: Crefydd y tri llanc ar wastadedd Dura. Gosododd Nebuchodonosor ei ddelw aur i fyny, ac anfonodd orchymyn allan i bawb syrthio ac addoli y ddelw aur. Pallodd y tri llanc, a thaflwyd hwy i'r ffwrn dân. Dyna grefydd stiff. Am wrthod

ufuddhau i orchymyn Darius y mae Daniel yn cael ei fwrw i ffau'r llewod. Dyna grefydd stiff. Chwi, bobl ieuainc, mynwch grefydd stiff—crefydd i lynu wrth gydwybod nad beth fo'r rhwystrau."

GWILYM MARLES.—Yr ydym yn sicr y bydd unrhyw fanylion yn nghylch y gwr athrylithgar ac enwog hwn yn dderbyniol gan ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Cawsom y fraint unwaith o gael Beibl y teulu yn ein llaw, ac hamdden hefyd i gopio ychydig o gofnodion. Ganwyd W. T. Ebrill 7fed, 1834 yn Glanrhydygwiail, ar lan yr afon Cothi yn mhlwyf Llanybyther, Sir Gaerfyrddin. Cafodd ei fedyddio gan y Parch. Rees Powell, gweinidog yr Anibynwyr yn Gwernogle y pryd hwnw. Ganwyd ei wraig gyntaf, Mary Hopkins, Ionawr 1, 1829, yn Glyndele, plwyf Kilybebyll, ger Abertawe, a bedyddiwyd hi gan yr enwog Griffiths, Alltwen. Ganwyd Dian, y plentyn henaf yn Medi 22, 1860, a bedyddiwyd hi gan y Parch. J. R. Kilsby Jones. Yn mhlith y rhai a ddewiswyd i fedyddio y plant dilynol cawn enwau y Parchn. D. Evans, B.A., Maesymeillion; T. Thomas, Pantdefaid; W. Evans, Aberayron, a Dr. Thomas Rees, Abertawe. Ganwyd Muriel, y ferch ieuengaf sydd yn fyw, yn Llangranog, Gorphenaf, 1874, a sylwa'r cofnodydd fod ei genedigaeth mewn ffordd naturiol yn debyg i eiddo Paul mewn ffordd ysprydol—yn anhymig. Crybwylla hefyd gyda'r diolchgarwch gwresocaf yr help dderbyniasid fel mamaeth oddiwrth Mrs. Phillips, Capel Drindod, mam y pregethwr adnabyddus, y Parch. E. Phillips, Castellnewydd. Cymerodd y gwasanaeth cyntaf yn ysgoldy y Parch. W. Thomas yn Llandyssul le Mawrth 15, 1868, Mr. Thomas ei hun yn pregethu oddiar Ps. 27 : 14. "Disgwyl wrth yr Arglwydd; ymwrola, ac efe a nertha dy galon; disgwyl, meddaf, wrth yr Arglwydd." Bu y Parch. T. Thomas yn gofalu am y gwasanaeth bob yn ail ag ef hyd Hydref, 1873. Pregethodd W. T. ei bregeth gyntaf yn Llwynrhydowen, Ebrill 4, 1858. Yr oedd Marles a Dr. Rees, Abertawe, yn gyfeillion er yn gwahaniaethu braidd mewn pob peth. Perthynent i'r un tylwyth—y mwyaf cynyrchiol y gwyddom am dano mewn pregethwyr o holl dylwythau pregethwrol Cymru. Gwel Fywgraffiad Dr. Rees gan Dr. Thomas, Liverpool, a sylwer ar daflen achyddol y teulu.—*G. I.*

CAPEL-Y-BRYN.—Ar y 14eg o Orphenaf daeth deugeinfed mlwydd gweinidogaeth yr Hybarch John Davies i ben. Er dathlu yr achlysur traddododd yr hen weinidog anerchiad ar waith y cyfnod. Cymerodd fel testyn eiriau Paul, Actau 26 : 22, "Am hyny, wedi i mi gael help gan Dduw, yr wyf fi yn aros hyd y dydd hwn," &c. Yn ystod ei anerchiad dywedodd iddo wasanaethu mewn rhai miloedd o angladdau yn Ngheredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Y mae erioed yn fyfyriwr. Darllena bobpeth, a phrofa yr hyn sydd dda. Teimla ddyddordeb mewn gwleidyddiaeth. Byth oddiar etholiad bythgofiadwy 1868 ni ofynodd yr un Ceidwadwr iddo am bleidlais. Am flynyddau lawer bu yn îs-gadeirydd y Bwrdd Ysgol, ac yr oedd yn un o'r henaduriaid cyntaf o'r Cynghor Sirol. Ar ol pregethu rhyw bedair-blynedd-ar-ddeg yn yr hen ysgoldy wrth droed y bryn, anturiodd adeiladu y capel hardd fydd yn aros yn gofiant melus am dano ef a'i gydweithwyr dros genedlaethau i ddyfod, ar ael y bryn ochr arall y pentref. Prynwyd y tir, ac agorwyd y capel yn ddiddyled. Ychydig flynyddau ar ol hyn bu raid adgyweirio hen gapel Alltyplaca. Yn y blynyddau diweddaf daeth galw am gapel yn y cwm. Cwynai fod rhyw £80 o ddyled yn aros o hyd ar y gynulleidfa egwan hono. Bendithied y nefoedd hen wron ein pwlpud Cymreig yn mhellach yn ei hwyrddydd. Am chwech, cafwyd pregethau grymus ac adeiladol iawn gan y Parchn. David Evans, Cribyn, a Lewis Williams, Rhydygwin.

STORI AM ESGOB.—Clywir gair da yn fynych am Esgob Stubbs, ac

felly caiff yr hanesyn a ganlyn ei ddarllen gyda dyddordeb. Efe ei hunan sydd yn ei adrodd. "Pan oeddwn yn byw yn Lerpwl gelwais gyda marsiandwr cyfoethog am danysgrifiad." 'Dywedir wrthyf,' medd y marsiandwr, "eich bod yn Sosialydd. Beth ydy ystyr hyny?' Atebais inau, fod yna Sosialiaeth Boliticaidd a Sosialiaeth Gristnogol. Y cyntaf a ddywed, 'Y peth sydd eiddo chi sydd eiddo fi,' a'r llall, 'Y peth sydd eiddo fi sydd eiddo chi.' 'Yr wyf wedi cwrdd â llawer o'r dosparth cyntaf,' ebe'r marsiandwr, 'ond dim un erioed o'r ail ddosparth. Dyma ugain punt i chwi.'

CRONFA YR YMOFYNYDD TUAG AT DDILEU DYLED CAPEL PENTRE RHONDDA.—Ar gais cyfeillion deimla ddyddordeb dwfn yn y mater hwn yr ydym yn agor rhestr o danysgrifwyr tuag at ddileu y ddyled bwysa mor drwm ar yr ychydig yn y Pentre. Apeliwn yn neillduol at eglwysi Sir Aberteifi am danysgrifiadau, a gosodwn hwynt yma o fis i fis. Anfoner tanysgrifiadau o eglwysi Ceredigion i Olygydd YR YMOFYNYDD, Llandyssul. Daeth y tanysgrifidau canlynol i law:—Mrs. Jones, Brynllefrith, 2s.6c.; Mrs. Jenkins, Chapel House, 1s.; James Jones, Tynlon, 6c.; John Lloyd, Tynygrug Cottage, 2s.; D. Richards, Sychbant, 2s.6c.; Mrs. Thomas, Quarry villa, 1s.; E. Evans, Ffinantganol, 2s.6c.; D. Jones, Tydwgi, 2s.6c.; M. Thomas, Ffinant Arms, 1s.6c.; E. Jones, Chapel House, Alltyplacca, 6c.

YR ADOLYGYDD.

"SEARCH THE SCRIPTURES, OR STRAY NOTES ON THE BIBLE." By Emily Sharpe. Published at 63, City Road, London, E.C. 1906. 208 pp.

Dyddorol iawn yw'r "*Stray Notes*" hyn a theilwng o ystyriaeth athrawon ein Hysgolion Sul yn enwedig. Dylai fod copi yn holl lyfrgelloedd ein heglwysi. Ceir yma grynhoad o wybodaeth fuddiol wedi ei gasglu o lawer maes sydd allan o gyrhaedd yr amlafrif o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Y mae enw Miss Sharpe yn adnabyddus fel un o brif gymwynaswyr ein heglwysi yn Nghymru.

—

"HISTORIC NOTES ON THE OLD & NEW TESTAMENTS," by Samuel Sharpe. Fourth Edition. Elliot Stock, 1907. Pris 6s. 312 pp. 8vo.

Dylai'r llyfr nodiadau uchod fod o ddyddordeb ac adeiladaeth i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, ac yn enwedig i'r cyfryw nad y'nt yn berchen ar y Geiriaduron Beiblaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Ceir yma nodiadau ar holl lyfrau'r Beibl, ac erthyglau gwerthfawr ar gynwys yr Apocrypha. Dyddorol iawn hefyd yw'r penodau ar hanes yr Aifft, Edom, Syria, Assyria, yn nghyda Thyrus a Sidon. Ysgrifenwyd y llyfr fwy na haner can' mlynedd yn ol, ond y mae'n fwy *up-to-date* na'r rhan amlaf o lyfrau gyhoeddir heddyw.

Gwnaeth Mr. S. Sharpe waith gwerthfawr yn ei ddydd mewn cysylltiad ag Undodiaeth. Ystyriwn ei gyfieithad o'r Testament Newydd yn rhagorach, ar rai ystyriaethau, nag hyd y nod y Cyfieithad Diwygiedig, 1881, er fod yr argraffiadau cyntaf o hono wedi ymddangos flynyddoedd meithion cyn hyny.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds.

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads, D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid.

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO. LTD. SWANSEA.